# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion/Bwrdd Iechyd Cwm Taf |
| **SWYDD:** | Arbenigwr Adsefydlu Golwg |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR11 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-ymarferydd – Gwasanaethau Synhwyraidd |

**DIBEN Y SWYDD:**
Darparu gwasanaeth adsefydlu arbenigol i bobl sydd wedi colli eu golwg/nam ar ddau synnwyr drwy gynnig ymyriad cynnar a hyblyg. Canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a hunanreoli, gan alluogi unigolion i gynnal annibyniaeth a rheoli risg drwy gyfuniad o asesu ac ymyriadau ymarferol eraill.

Penderfynu ar gymhwystra ar gyfer darparu gwasanaethau ac offer gan hyrwyddo grymuso ac annibyniaeth defnyddwyr yn seiliedig ar egwyddorion cymorth dan gyfarwyddyd i ddinasyddion. Cynnig gwybodaeth, cyngor a chyfeirio priodol i wasanaethau eraill fel y bo'n briodol i ddiwallu angen a nodwyd.

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu rhaglenni Adsefydlu mewn ymgynghoriad â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Addysgu rhaglenni sgiliau symudedd a chyfeirio dan do ac yn yr awyr agored, sgiliau byw bob dydd a rhaglenni sgiliau cyfathrebu (gan gynnwys addysgu Braille, Moon a chyffwrdd-deipio).
- Cynorthwyo Asesiadau Golwg Gwan a hyrwyddo annibyniaeth drwy ddarparu offer ac addasiadau priodol yn unol ag adnoddau a blaenoriaeth.
- Darparu hyfforddiant a chyhoeddusrwydd ar adsefydlu pobl sydd wedi colli golwg/synhwyrau i weithwyr proffesiynol eraill, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, grwpiau a chymunedau.
- Darparu mewnbwn proffesiynol i raglenni Adsefydlu yn ôl yr angen, gan gynnwys cymorth emosiynol mewn perthynas ag effaith colli synhwyrau a chyflyrau llygaid ac addasu i hyn.
- Cysylltu â'r Tîm Plant ag Anableddau a darparu cymorth adsefydlu arbenigol i blant sydd wedi colli eu golwg a phobl ifanc sy'n pontio.
- Cwblhau cofrestriadau dall a golwg rhannol, monitro a diweddaru cofrestrau.
- Cynnal cofnod wedi'i ddiweddaru ar y ffeiliau electronig, a dogfennau perthnasol fel sy'n ofynnol gan y gyfarwyddiaeth a'r bwrdd iechyd i gyrraedd safonau da ar gyfer arfer.
- Bod yn gyfrifol am eich perfformiad eich hun yn erbyn targedau iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol y cytunwyd arnynt ac yn barod i weithio yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Synhwyraidd.

- Paratoi ar gyfer goruchwylio ac adolygiadau datblygu unigol a chymryd rhan yn y rhain a nodi anghenion datblygu personol a hyfforddiant.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion ac Ansawdd neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

## GWIRIAD COFNODION TROSEDDOL (LLE Y BO'N BERTHNASOL)

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

# Manyleb y Person
## Arbenigwr Adsefydlu Golwg

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Tystysgrif neu Ddiploma gydnabyddedig mewn Astudiaethau Adsefydlu neu gyfwerth.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus/hyfforddiant ôl-gymhwyso yn enwedig y rhai sy'n cyrraedd y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i bobl ag anghenion synhwyraidd.<br>• Parodrwydd i weithio tuag at gymhwyster mewn nam ar ddau synnwyr. | Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gydag asesiadau synhwyraidd i oedolion a phlant a'u cynnal.<br>• Profiad o weithio amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau statudol/gwirfoddol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac annibyniaeth.<br>• Gwybodaeth am nam ar y synhwyrau ac effeithiau hyn ar unigolion/gofalwyr/teulu a dealltwriaeth o hyn.<br>• Gwybodaeth am offer ac adnoddau arbenigol sydd ar gael i bobl â nam ar y synhwyrau.<br>• Gwybodaeth am ddeddfwriaeth gyfredol fel y mae'n berthnasol i bobl â nam ar y synhwyrau ac yn effeithio arnynt.<br>• Rhywfaint o ddealltwriaeth o reoli adnoddau. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Profiad o egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd ac ymrwymiad iddo er mwyn datblygu, cynorthwyo a chyflawni canlyniadau unigolyn. | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i gyrraedd y safonau proffesiynol uchaf o ymarfer ROVI. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Gallu blaenoriaethu'ch gwaith eich hun a chymryd cyfrifoldeb dros reoli llwyth gwaith a pherfformiad. | | |
| | • Parodrwydd gweithio yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Synhwyraidd a chyfrannu at ddatblygu gwasanaethau. | | |
| | • Gallu defnyddio systemau TG i gofnodi gwaith a rhoi tystiolaeth ohono. | Ydy | |
| | • Ymroddiad amlwg i gydraddoldeb ac ymarfer gwrthwahaniaethol a'r gallu i integreiddio'r rhain mewn ymarfer a chynllunio cefnogaeth. | | |
| | • Sgiliau rhyngbersonol a phobl da. | Ydy | |
| | • Trwydded yrru ddilys gyfredol a char/mynediad at drafnidiaeth briodol. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |